

# Bathodyn Her Hawliau

Brownis / Cybiau



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

# Croeso i'r Bathodyn Her Hawliau



Fy enw i yw Sally a fi yw Comisiynydd Plant Cymru.

Mae'r Bathodyn Her Hawliau wedi cael ei greu ar dy gyfer di, er mwyn i ti allu dysgu am hawliau plant a'm gwaith i fel Comisiynydd Plant Cymru.

Mae'r llyfr gwaith yma'n llawn o weithgareddau hwyllog i ti a bydd cyfle i ti lenwi Taflen Weithgaredd ar ddiwedd pob gweithgaredd.

Ar ddiwedd yr Her, byddi di:

- Yn gwybod am hawliau plant. Mae'r holl hawliau sydd gen ti wedi cael eu hysgrifennu mewn rhestr fawr o'r enw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Yn gwybod amdana i, Comisiynydd Plant Cymru, a'r pwerau arbennig sydd gen i
- Yn gwybod o ble gallet ti gael rhagor o wybodaeth am dy hawliau
- Yn gallu dweud wrth dy deulu a'th ffrindiau am dy hawliau.

Rydw i'n edrych ymlaen at gael gwybod sut hwyl rwyd ti a'th bac/uned yn ei chael ar y Bathodyn Her Hawliau.

Gallet ti roi gwybod i mi, trwy ofyn i'th arweinydd anfon diweddariad ataf mewn neges e-bost at [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk), neu gallet ti gymryd rhan yn ein #AwrHawliau ar Twitter.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnat ti am hawliau, gallet ti edrych ar fy ngwefan:

[www.complantcymru.org.uk](http://www.complantcymru.org.uk)



# Cynnwys:

## Gweithgaredd 1: Corff o Hawliau

*Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n edrych ar hawliau plant a'r pethau sydd eu hangen arnat ti i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.*

## Gweithgaredd 2: Hawliau Plant

*Yn y gweithgaredd yma byddi di'n dweud wrth berthynas neu ffrind y tu allan i'r Brownis/Cybiau am dair hawl wahanol sydd gan blant.*

## Gweithgaredd 3: Sally Holland a'i Phwerau Arbennig

*Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n dysgu am Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru a'r 5 Pŵer Arbennig sydd ganddi.*

## Gweithgaredd 4: Barcud Hawliau

*Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n creu dy "Farcud Hawliau" dy hun ac yn rhoi cynnig ar ei hedfan.*


## Gweithgaredd 5: Fy Mathodyn Her Hawliau

*Mae hwn yn weithgaredd byr sy'n gyfle i ti feddwl am yr hyn rwyf ti wedi'i ddysgu.*



# Gweithgaredd 1: Corff o Hawliau

Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n meddwl am hawliau plant a'r pethau sydd eu hangen arnat ti i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.




## Bydd angen y pethau hyn arnat ti:

Taflen weithgaredd corff o hawliau

Pinnau ysgrifennu/pensiliau lliw


Poster Deall Dy Hawliau neu Becyn Symbolau  
(bydd y rhain ar gael gan arweinydd y pac/uned)

## Gwneud y gweithgaredd:




1. Addurna'r person ar dy "Daflen Weithgaredd Corff o Hawliau".
2. Meddylia am 5 peth sydd eu hangen ar blant er mwyn tyfu i fyny'n **hapus, yn iach ac yn ddiogel**.
3. Ysgrifenna'r rhain o gwmpas y person
4. Gofyn am gopi o'r poster "Deall Dy Hawliau" neu'r Pecyn Symbolau
5. Edrych i weld ydy'r erthyglau (hawliau) yn cyfateb i'r pum peth rwyt ti wedi'u hysgrifennu.
6. Ysgrifenna unrhyw hawliau eraill rwyt ti'n meddwl eu bod nhw'n bwysig er mwyn tyfu i fyny yn "hapus, yn iach ac yn ddiogel".

# Taflen Weithgaredd Corff o Hawliau



## Gweithgaredd 2: Hawliau Plant

Yng Ngweithgaredd 1, fe fuest ti'n dysgu am hawliau plant. Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n dewis un aelod o'th deulu neu un o'th ffrindiau y tu allan i'r Brownis neu'r Cybiau ac yn dweud wrthyn nhw am hawliau plant.




Bydd angen y pethau hyn arnat ti:

Pin ysgrifennu neu bensil

Taflen Weithgaredd Corff o Hawliau

Taflen Weithgaredd 2: Hawliau Plant

**Gwneud y gweithgaredd:**



hawliau plant.

1. Edrych ar dy daflen weithgaredd Corff o Hawliau o Weithgaredd 1.
2. Dewis 3 hawl ac ysgrifenna amdany'n nhw neu tynna lun ohonyn nhw ar Daflen Weithgaredd 2: Hawliau Plant.
3. Dewis pwy rwy't ti am siarad â nhw ac ysgrifenna eu henw ar y daflen.
4. Dwed wrth y person rwy't ti wedi'i ddewis am

# Taflen Weithgaredd 2: Hawliau Plant

Rydw i'n mynd i siarad am:

Erthygl


Erthygl

Erthygl

Rydw i'n mynd i ddweud wrth \_\_\_\_\_ am  
hawliau plant.

# Gweithgaredd 3: Sally Holland a'i Phwerau Arbennig

Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n dysgu am Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.



Arbennig

## Bydd angen y pethau hyn arnat ti:


Pinnau ysgrifennu neu bensiliau lliw

Taflen Wybodaeth am Sally Holland a'i Phwerau Arbennig

Taflen Weithgaredd 3: Sally Holland a'i Phwerau

## Sut mae mynd ati:

1. Darllen y Daflen Wybodaeth am Sally Holland a'i Phwerau Arbennig
2. Defnyddia'r ffeithiau o'r daflen i greu dy Sally dy hun (cofia geisio cynnwys ei Phwerau Arbennig)
3. Rhanna dy Archarwr â gweddill dy Bac/Uned





## Taflen Wybodaeth am Sally Holland a'i Phwerau Arbennig

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru.

Ei gwaith hi yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y pethau sydd eu hangen er mwyn tyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.



Mae gan Sally 5 Pŵer Arbennig. Mae hi:



Yn **gwrando** ar blant a phobl ifanc yng Nghymru



Yn **helpu** plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau



Yn **rhoi cyngor** i blant sydd ddim yn derbyn eu hawliau. Mae gan Sally dîm o bobl sy'n helpu plant. Os byddi di eisiau siarad â ni, ffonia ni ar 0808 801 1000



Yn gwneud yn siŵr bod y llywodraeth yn parchu hawliau plant




Yn **codi llais** dros blant a phobl ifanc yng Nghymru ar faterion pwysig

## Taflen Weithgaredd 3: Sally a'i Phwerau Arbennig

---


Tro Sally yn Archarwr a dangos sut mae hi'n gallu defnyddio'i Phwerau Arbennig i ofalu bod pob plentyn yng Nghymru yn derbyn ei hawliau.



# Gweithgaredd 4: Barcudiaid Hawliau

Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n meddwl am yr hawliau rwyt ti wedi dysgu amdanyn nhw yng Ngweithgareddau 1, 2 a 3.

Dylet ti ofyn i arweinydd y pac/yr uned dy helpu di a gweddill dy grŵp i wneud y gweithgaredd yma gyda'ch gilydd. Os ti yw'r unig un sy'n gweithio tuag at y bathodyn yma, gallet ti gymryd amser i ddysgu dy bac/uned am hawliau.



## Bydd angen y pethau hyn arnat ti:

Ffyn (ffyn bambŵ sy'n gweithio orau)


Llinyn a selotep

Papur (maint A3 neu'n fwy)

Pinnau ysgrifennu/pensiliau

Siswrn

Rhuban



## Gwneud y gweithgaredd:

1. Cyn dechrau, meddylia am yr holl hawliau plant rwyt ti wedi dysgu amdanyn nhw yng Ngweithgareddau 1, 2 a 3.
2. Dewis un hawl sy'n bwysig i ti a thynna lun ohoni neu ysgrifenna'r hawl ar ganol dy bapur
3. Rwyt ti'n barod i wneud dy farcud nawr. Os hoffet ti weld lluniau i'th helpu i wneud dy farcud, mae'n bosib yr hoffet ti ddilyn cyfarwyddiadau o wefan debyg i hon: <https://www.countryfile.com/how-to/how-to-make-a-kite/>
4. Pob hwyl yn ei hedfan!

# Gweithgaredd 5: Fy Mathodyn Her Hawliau

---

Unwaith y byddi di wedi gorffen Gweithgareddau 1, 2, 3 a 4, llenwa'r daflen hon a'i rhoi i arweinydd y pac. Byddan nhw'n gallu ei gwirio cyn i ti gael dy fathodyn.

1. Oeddet ti'n gwybod am hawliau plant cyn y bathodyn yma? (rho gylch o amgylch dy ateb)

OEDDWN

NAC OEDDWN

DDIM YN GWYBOD

2. Ysgrifenna neu tynna lun un o'r hawliau plant rwyt ti'n cofio amdani.

3. Beth yw enw Comisiynydd Plant Cymru?

4. Ble rwyt ti'n gallu cael rhagor o wybodaeth am hawliau plant?

5. Pa un oedd dy hoff weithgaredd a pham?